## Hysbysiad o Gwneud

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# (FFORDD FYNEDIAD THEATR CLWYD, YR WYDDGRUG)

# (GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU) 2025

Hysbysir drwy hyn fod, Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 21 Ionawr 2025 o dan Adran 1 2 a 3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") a phob pŵer arall sy'n galluogi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, a'i effaith fydd:-

1. Ni chaiff unrhyw un achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd heblaw ar gyfer mynediad a feic pedalau, yrru ar hyd y ffordd sy'n wynebu Ffordd Fynediad Theatr Clwyd:-

a) **Ffordd Fynediad Theatr Clwyd**: O bwynt 73 metr i'r dwyrain o'i chyffordd gyda Raikes Lane
b) **Ffordd Fynediad Theatr Clwyd**: O bwynt 63 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd gyda'r gylchfan pedair ffordd.

Os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 31 Ionawr 2025, cynlluniau'n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r cyngor dros wneud y Gorchymyn, gellir eu harchwilio yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AP yn ystod oriau agor neu fe allwch eu gweld ar ein gwefan www.siryffint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw un o'i darpariaethau ar sail nad yw neu ydynt o fewn pwerau'r Deddfau, neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Deddfau neu unrhyw offeryn a wnaed o dan y Deddfau, wneud cais i'r Uchel Lys cyn pen chwe wythnos ar ôl dyddiad y Gorchymyn.

Dyddiedig y 24fed diwrnod o Ionawr 2025

KWilby

Katie Wilby
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF.

DYDDIEDIG 21 IONAWR 2025

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (FFORDD FYNEDIAD THEATR CLWYD, YR WYDDGRUG) (GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU) 2025

Katie Wilby,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# (FFORDD FYNEDIAD THEATR CLWYD, YR WYDDGRUG)
# (GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU)
# 2025

Mae Cyngor Sir y Fflint wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adran 1, 2 a 3 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf Gorchymyn 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ni chaiff unrhyw un achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw ar gyfer mynediad a feic pedalau, yrru ar hyd y ffordd sy'n wynebu Ffordd Fynediad Theatr Clwyd Yr Wyddgrug:-

a) **Ffordd Fynediad Theatr Clwyd**: O bwynt 73 metr i'r dwyrain o'i chyffordd gyda Raikes Lane

b) **Ffordd Fynediad Theatr Clwyd**: O bwynt 63 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd gyda'r gylchfan pedair ffordd.

2. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag peri i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y rhan honno o'r ffordd a nodir yn yr Erthygl, os yw'r cerbyd:-

a) Am gael mynediad i eiddo cyfagos;

b) Yn gerbyd y Gwasanaeth Tân, Ambiwlans neu'r Heddlu pan fo argyfwng;

c) Yn feic pedalau, nad yw'n gerbyd modur;

d) Yn ymwneud â'r canlynol-

i) Cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu rhan o'r ffordd a nodir;

ii) Gosod, codi, addasu neu drwsio ar dir cyfagos i'r darn o ffordd a nodir, mewn perthynas ag unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell o unrhyw rwydwaith cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003;

iii) Gweithredoedd adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;

e) Gwasanaethu ar ran awdurdod lleol, cwmni gwasanaethau cyhoeddus neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

f) Dylid defnyddio'r cerbyd at ddibenion danfon neu gasglu pecynnau post fel y diffinnir yn Adran 125 Deddf Gwasanaethau Post 2000.

3. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw Reoliad a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac nid yn rhanddirymiad iddynt.

4. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei bod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

5. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2025 a gellir ei ddyfynnu fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffordd Fynediad Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug) (Gwahardd Gyrru) (Heblaw Ar Gyfer Mynediad a Beiciau Pedalau) 2025

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar 21 Ionawr 2025 )
yng ngŵydd:- )

21820

**Y CADEIRYDD**

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

~~**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**~~

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# (FFORDD FYNEDIAD THEATR CLWYD, YR WYDDGRUG) (GWAHARDD GYRRU) (HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU) 202X

## DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu cyflwyno cyfyngiad Gwahardd Gyrru ar y ffordd fynediad o flaen Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug. Cynigir atal traffig trwodd yn y lleoliad hwn, gan ganiatáu mynediad i feiciau pedalau, cerddwyr ac ymwelwyr sy'n dymuno defnyddio Theatr Clwyd. Mae'r Gorchymyn yn ceisio atal traffig modur o unrhyw fath rhag defnyddio rhan o ffordd a chadw amwynderau'r ardal a chaniatáu mynediad i gerddwyr a beiciau pedalau.

Mae system i atal traffig trwodd wedi bod ar waith dros gyfnod y gwaith gwella sydd wedi bod yn mynd rhagddynt yn Theatr Clwyd ac felly bydd y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hwn yn ffurfioli'r trefniant presennol.

Mae'r gwaith gwella ar y briffordd yn cynnwys addasiadau i'r dwyrain a'r gorllewin o'r ffordd fynediad i Theatr Clwyd drwy gyflwyno cylchfan fach yn cynnwys ardal gasglu a gollwng a llefydd parcio hygyrch gwell.

Bydd y cynnig yn gwella amwynder yr ardal ac yn cyfrannu at greu amgylchedd priffyrdd mwy diogel i bob defnyddiwr ffordd, yn arbennig cerddwyr sy'n ymweld â Theatr Clwyd, fel yr eglurir isod.

Cyfraith Martyn
Deddf newydd yn dilyn y Bomio yn Arena Manceinion yw Cyfraith Martyn. Dan y gyfraith hon, mae gan theatrau, neuaddau cyngherddau a lleoliadau tebyg gyfrifoldebau newydd yn ymwneud â diogelu pobl. Byddai gwaredu mynediad i gerbydau o flaen yr adeilad yn helpu i gyflawni nifer o'r pwyntiau hyn, gan y byddai'n helpu i reoli llif cerbydau ac yn darparu rhywle mwy diogel i ddianc o flaen yr adeilad.


Diogelwch Cynulleidfaoedd Ehangach
Bydd dull mwy diogel a chroesawgar i gynulleidfaoedd a defnyddwyr ehangach yr adeilad. Byddwn yn croesawu cannoedd o filoedd o bobl bob blwyddyn ac mae'n bwysig bod y buddsoddiad yn yr adeilad yn cael ei adlewyrchu yn yr ardaloedd awyr agored.

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
Bydd yr adeilad ar ei newydd wedd yn un o'r adeiladau cyhoeddus mwyaf hygyrch yng Nghymru. Pe na bai'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau, ni fyddai modd cael mynediad i'r maes parcio heb orfod defnyddio grisiau, ac ni fyddai unrhyw lefydd parcio hygyrch gwastad ar gael.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener 6fed diwrnod o Rhagfyr 2024

Katie Wilby, Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NF




## Notes:

1) Ni chaiff unrhyw un achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd heblaw ar gyfer mynediad a beiciau pedalau, yrru ar hyd y ffordd sy'n wynebu Ffordd Fynediad Theatr Clwyd Yr Wyddgrug:-

a) **Ffordd Fynediad Theatr Clwyd**: O bwynt 73m i'r dwyrain o'i chyffordd gyda Raikes Lane

b) **Ffordd Fynediad Theatr Clwyd**: O bwynt 63m i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd gyda'r gylchfan pedair ffordd.

1) To prohibit any vehicle except pedal cycles and for access, from entering the Theatre Clwyd Access Road :-

a) **Theatre Clwyd Access Road**: From a point 73 m east of its junction with Raikes Lane.

b) **Theatre Clwyd Access Road:** From a point 63 metres north west of its junction with the four leg roundabout.


Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation). County Hall, Mold, CH7 6NF
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth). Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

STREETSCENE



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.


| | |
|---|---|
| DRAWN BY: | NGW |
| CHECKED BY: | LS |
| SCALE: | NTS @ A3 |
| NAT. GRID REF: | 329345 364234 |

CONSTRUCTION | WORKING | AS-BUILT

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |

FFORDD FYNEDIAD THEATR CLWYD, YR WYDDGRUG

Theatre Clwyd Access Road, Mold

GWAHARDD GYRRU HEBLAW AR GYFER MYNEDIAD A BEICIAU PEDALAU
PROHIBITION OF DRIVING EXCEPT FOR ACCESS AND CYCLISTS

DRAWING NUMBER HT/25/TCAR 201 C1